**Crynodeb**

Diben y fframwaith hwn yw amlinellu amcanion a gweledigaeth gyffredinol y Comisiynydd drwy gomisiynu gwasanaethau. Gwnaiff y fframwaith egluro sut y cyflawnir hyn.

Mae'r fframwaith hwn wedi'i fabwysiadu gan SCHTh Gogledd Cymru.

| **Teitl:** | **Fframwaith Comisiynu** |
|---|---|
| **Perchennog y Polisi:** | **Prif Weithredwr** |
| **Awdur y Polisi:** | **Rheolwr Comisiynu** |
| **Rhif y Polisi:** | **1** |
| **Dyddiad Dod i Rym:** | **22.09.2021** |
| **Dyddiad Adolygu:** | **22.09.2022** |
| **Fersiwn:** | **5.0** |

## Cynnwys

Cyflwyniad gan y Comisiynydd 1

1. Rhagarweiniad 2
2. Y Cynllun Heddlu a Throsedd 3
3. Defnyddio Adnoddau 3
4. Cylch Comisiynu 3
5. Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd 3
6. Cyllid Comisiynu Dioddefwyr
7. Neges

## CYFLWYNIAD GAN Y COMISIYNYDD

Rwyf yn falch o gyflwyno fy Fframwaith Comisiynu. Nod y ddogfen hon yw amlinellu'r hyn rwyf eisiau ei gyflawni drwy gomisiynu gwasanaeth a rhoi fframwaith ar sut rwyf yn bwriadu ei gwneud iddo ddigwydd.

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, rwyf wedi cael fy ethol gan y cyhoedd i osod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona. Mae rhan o'm rôl yn cynnwys comisiynu gwasanaethau un ai o wasanaeth heddlu'n uniongyrchol neu gan bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol i gynorthwyo cyflawni fy nghynllun heddlu a throsedd i Gymru.

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn gorchymyn Comisiynwyr i gadw cronfa'r heddlu, gosod a rheoli'r gyllideb ar gyfer plismona, gwneud grantiau a mynd i gytundebau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau. Yn ogystal â hynny mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 yn grymuso Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i gomisiynu gwasanaethau lleol sydd wedi'u bwriadu i gynorthwyo dioddefwyr, neu dystion, neu unigolion eraill a effeithir gan droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rwyf yn gredwr cryf mewn comisiynu ar y cyd. Yn ystod fy nhymor fel comisiynydd gwnawn edrych ar bob cyfle. Drwy weithio gyda'n partneriaid ar y Bwrdd Cymunedau Diogelach, byddaf yn edrych ar gyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer comisiynu ar y cyd. Mae comisiynu ar y cyd yn agwedd strategol i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau mewn ffordd holistaidd a chysylltiedig. Gan mai fi sy'n gyfrifol yn statudol am gomisiynu, a fi yn unig, dwi'n cefnogi unrhyw strategaeth gomisiynu ar y cyd sy'n cyflawni effeithlonrwydd ac yn y pen draw am wella'r gwasanaeth a roddir i ddioddefwyr trosedd ledled ein rhanbarth.

Cyhoeddais fy nghynllun heddlu a throsedd cyntaf ym mis Hydref 2021. Ysgrifennais y cynllun gyda chymorth y cyhoedd yn dilyn nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ac arolwg ar-lein. Gwrandewais ar yr hyn roedd y cyhoedd ei eisiau a phryderon y gymuned fusnes. Mae'r sectorau gwirfoddol wedi cael cyfraniad sylweddol i'r cynllun ar y cyd ag uwch swyddogion, staff a'n partneriaid statudol sy'n gweithio'n galed i'n cynorthwyo ni gyda'r proffesiynoldeb mwyaf. O ganlyniad, mae fy mlaenoriaethau'n adlewyrchu'r prif feysydd bygythiad, risg a niwed y dylem ganolbwyntio arnynt yng ngogledd Cymru. Mae hynny'n cynnwys:

- **Cyflawni cymdogaethau diogelach**
  - Ymdrin ac atal trosedd cefn gwlad a bywyd gwyllt
  - Swyddogion a staff heddlu mwy effeithlon ac effeithiol
  - Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd
- **Cefnogi dioddefwyr a chymunedau**
  - Ymdrin ac atal cam-drin domestig a thrais rhywiol
  - Diogelu pobl fregus
  - Ymdrin ac atal troseddau seiber
  - Sefydlu panel dioddefwyr
  - Ymdrin ac atal trosedd casineb
- **System Cyfiawnder Troseddol effeithiol a theg**
  - Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru
  - Cynyddu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol

- Cefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol
- Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a chefnogi adsefydlu pobl sydd wedi troseddu

Bydd y fframwaith comisiynu yn cynorthwyo cyflawni fy amcanion a fy ngweledigaeth gyffredinol.

**Andrew Dunbobbin**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Fframwaith Comisiynu hwn wedi'i ddatblygu i gynorthwyo swyddogaeth gomisiynu Comisiynydd Heddlu a Throsed Gogledd Cymru ('y Comisiynydd').

1.2 Mae’n bwysig fy mod i ddechrau'n egluro'r hyn rwyf yn ei feddwl drwy Gomisiynu yng nghyd-destun y fframwaith hwn. Mae comisiynu yn ddatganiad ffurfiol o gynlluniau ar gyfer sicrhau, manylu a monitro gwasanaethau i fodloni anghenion pobl ar lefel strategol. Mae'n berthnasol i wasanaethau a roddir i asiantaethau cyhoeddus, y sectorau preifat a gwirfoddol.

1.3 Nid yw comisiynu yn rhywbeth y gallaf ei wneud ar fy mhen fy hun. Mae'n cynnwys creu gweledigaeth a chonsensws ymysg llawer o sefydliadau sy'n cynnwys partneriaid, darparwyr gwasanaeth, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. I gydnabod hyn rwyf wedi datblygu fy ffrydiau gwaith comisiynu o fewn tri edefyn o waith:

- **Cronfa Trosedd ac Anrhefn** – sydd wedi'i bwriadu i gynorthwyo gweithio mewn partneriaeth effeithiol i gyflwyno datrysiadau i bobl Gogledd Cymru drwy ymdrin â phroblemau a nodir drwy Ogledd Cymru wrth asesu trosedd ac anrhefn.
- **Cyllid Comisiynu Dioddefwyr** – mae hwn yn gyllid grant a roddir i'r CHTh gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i roi gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion trosedd a sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth gorau.
- **Grant VAWDASV** – penododd y Bwrdd VAWDASV SCHTh fel y corff atebol (Bancer Rhanbarthol) ar gyfer y Grant VAWDASV o Lywodraeth Cymru. Y cyllid ar y cyd gan SCHTh a'r grant VAWDASV (a dalwyd yn flaenorol yn uniongyrchol i'r LAs) i'w uno i un potyn i amddiffyn y rhaglenni IDVA, ISVA, CSA a throseddwyr presennol yn y chwe awdurdod lleol i gyd.

1.4 Yn ogystal â'r tri edefyn hyn, rwyf wedi comisiynu, drwy'r Swyddfa Gartref, cyllid i gynorthwyo ac ychwanegu gwerth at yr holl feysydd gwaith drwy'r fenter STRYDOEDD DIOGELACH.

## 2. Y Cynllun Heddlu a Throsedd

2.1 Nod greiddiol y fframwaith hwn yw cynorthwyo cyflawni'r Cynllun Heddlu a Throsedd, a chyflawni fy mlaenoriaethau.

2.2 Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon i Ogledd Cymru rwyf wedi sefydlu amcanion newydd ar gyfer y gwasanaeth heddlu. Y rhain yw:

- **Cyflawni cymdogaethau diogelach**
  - Ymdrin ac atal trosedd cefn gwlad a bywyd gwyllt
  - Swyddogion a staff heddlu mwy effeithlon ac effeithiol
  - Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd

- **Cefnogi dioddefwyr a chymunedau**
    - Ymdrin ac atal cam-drin domestig a thrais rhywiol
    - Diogelu pobl fregus
    - Ymdrin ac atal troseddau seiber
    - Sefydlu panel dioddefwyr
    - Ymdrin ac atal trosedd casineb
- **System Cyfiawnder Troseddol effeithiol a theg**
    - Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru
    - Cynyddu'r defnydd o Gyfiawnder Adferol
    - Cefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio o'r System Cyfiawnder Troseddol
    - Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a chefnogi adsefydlu pobl sydd wedi troseddu

2.3 Drwy gydol fy Nghynllun a Throsedd rwyf wedi pwysleisio pwysigrwydd gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Rwy'n bwriadu gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol i flaenoriaethau adnoddau a sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gomisiynu gwasanaethau.

## 3. Defnyddio Adnoddau

3.1 Mae comisiynu ynghylch sicrhau'r canlyniadau gorau a'r gwerth gorau mewn modd cynaliadwy tymor hir drwy wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael o arian i bartneriaethau, ar y cyd ag:

- angen deall anghenion defnyddwyr a'r cymunedau lleol (gan gynnwys ceisio adborth) a rhoi hwnnw wrth galon y broses gomisiynu
- ymgysylltu arbenigedd y trydydd sector a sefydliadau sy'n arwain y farchnad i ddeall y cyfraniad y gallent ei wneud ac ystyried buddsoddi o fewn y meysydd hyn i wella cyflawni'r gwasanaeth

3.2 O fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd gwnes sefydlu egwyddorion i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, a bydd yr egwyddorion hyn yn berthnasol i'r Fframwaith Comisiynu:

- Sicrhau adnoddau targed i wireddu cyfrifoldebau statudol a chyflawni'r amcanion heddlu a throsedd.
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y cyflwynir gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Sicrhau fod staff a swyddogion wedi'u darparu'n briodol a chael gwasanaethau cymorth digonol i wneud y mwyaf o'r amser sydd ganddynt ar gael i gyflawni gwasanaeth plismona.
- Sicrhau y defnyddir adnoddau'n briodol; Gwnaf fonitro incwm a gwariant drwy gydol oes y Cynllun Heddlu a Throsedd hwn. Gwnaiff proffiliau gwerth

am arian AHEM fy nghynorthwyo gyda'r gwaith hwn, drwy fy ngalluogi i gymharu Heddlu Gogledd Cymru gyda heddluoedd eraill.

- Cyflawni Gwerth Cymdeithasol ar ffurf llesiant Cymdeithasol, Economaidd, a llesiant Amgylcheddol a Diwylliannol i bobl a chymunedau Gogledd Cymru.

## 4. Cylch comisiynu

4.1 Rwyf wedi datblygu fy ffrydiau gwaith comisiynu o fewn tri maes gwaith. Mae hyn i alluogi mwy o eglurder ynghylch sut wyf yn bwriadu cyflawni'r meysydd gwaith gwahanol, i adlewyrchu gwahanol gyfnodau datblygu pob un o'r meysydd hyn ac i dynnu sylw at y bwriad strategol. Bydd y tri maes gwaith yn dilyn y cylch Comisiynu creiddiol a geir isod:

4.2

| | |
|---|---|
| **DEALL** | Adnabod canlyniadau, anghenion, adnoddau a blaenoriaethau lleol. Unioni gwasanaethau mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid sy'n ystyried gwybodaeth darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth ac adeiladu ar waith pobl eraill. |
| **CYNLLUNIO** | Sut i ymdrin ag anghenion yn effeithiol, effeithlon, teg ac mewn ffordd gynaliadwy, yn unigol ac yn gydweithredol. |
| **GWNEUD** | Gwneud penderfyniadau i sicrhau canlyniadau cyd-gomisiynu gwell |
| **ADOLYGIAD** | Monitro cyflwyno gwasanaeth yn erbyn canlyniadau disgwyliedig a hysbysu pa mor dda mae'n ei wneud yn erbyn y cynllun a chydnabod nad yw hon yn ddolen gaeedig ond yn gylch cyfredol. |

4.3 Mae canlyniadau'n hynod o berthnasol yn y cyfnodau ***gwneud, adolygu a chynllunio'r*** cylch comisiynu ac adlewyrchu'r newidiadau, manteision neu ddysgu o ganlyniad i'r gwasanaethau a ddarparwyd

## 5. Cronfa Trosedd ac Anrhefn y Comisiynwyr

5.1 Mae'r darlun ariannu wedi newid o ganlyniad i gyflwyno Comisiynwyr.

5.2 Penderfynodd y Swyddfa Gartref ddyrannu cyllid a oedd o'r blaen yn cynnwys ffrydiau ariannu grant, gan gynnwys y Gronfa Diogelwch Cymunedol, Cronfa'r Rhaglen Atal Cyffuriau (DIP), y Grant Profi Cyffuriau DIP, a'r Cyllid Troseddau Ieuenctid ac Atal Camddefnyddio Sylweddau i Gomisiynwyr.

5.3 Ar gyfer 2013/14 gwnaeth y Swyddfa Gartref ddyrannu £1,379,000 i Ogledd Cymru (gostyngiad o £174,734 ar y ffrydiau ariannu grant ar gael yn 2012/13). O 2014/15 fe wnaeth y Swyddfa Gartref drosglwyddo'r cyllid hwn i fod o fewn y grant plismona creiddiol, yn hytrach na chael ei ddyrannu i Gomisiynwyr fel ffrwd ariannu ar wahân. Mae'r newid hwn yn galluogi mwy o hyblygrwydd i ymateb i angen lleol. Fodd bynnag

mae'r newid hwn hefyd yn dangos y cyllid i doriadau i'r gronfa heddlu gyffredinol gan lywodraeth ganolog fel y digwyddodd yn 2015/16.

5.4 Ar gyfer 2021/22 rwyf wedi dyrannu £1,577,938.00 i'r Gronfa Trosedd ac Anrhefn. Dyrannwyd y cyllid hwn i gynorthwyo gweithgareddau o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd a'i ddyrannu i asiantaethau a sefydliadau ledled Gogledd Cymru.

5.5 Nid yw'r dyraniad hwn o Gronfa Trosedd ac Anrhefn y Comisiynydd yn cyfrif am gyfanswm y cyllid a ddefnyddir yng Ngogledd Cymru i gynorthwyo diogelwch cymunedol. Y nod yw darparu datrysiadau amlasiantaeth i anghenion a nodwyd o fewn yr asesiad strategol blynyddol o ddiogelwch cymunedol sy'n gweithio tuag at gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

5.6 Rwyf yn gwybod fod cymunedau a sefydliadau sydd â phrosiectau arloesol a all gynorthwyo i wneud ein cymunedau'n fwy diogel. Mae'n bwysig drwy fy fframwaith comisiynu fy mod hefyd yn darparu ar gyfer cymunedau i gael mynediad at gyllid yn uniongyrchol i gynorthwyo'r gwaith hwn.

5.7 Yn 2021/22 gwnaf barhau i gefnogi'r rhaglen ariannu grant gyllidebu gyfranogol "Eich Cymuned, Eich Dewis". Bob blwyddyn bydd cyfanswm o £42,000 ar gael ledled Gogledd Cymru i ariannu hyd at 12 o brosiectau, a bydd pobl Gogledd Cymru yn penderfynu pa brosiectau fydd yn derbyn y cyllid.

5.8 Rwyf yn bwriadu parhau i roi cyllid i elusen Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (**PACT**). Mae'r elusen wedi sefydlu sawl ffrwd ariannu hygyrch gan gynnwys Cronfa Grantiau Bach Tîm Cymdogaethau Diogelach (mae grantiau hyd at £250.00 ar gael ond i Swyddogion Heddlu i'w cynorthwyo i gefnogi grwpiau cymunedol gwerin gwlad) a grantiau hyd at £2,000.00 i grwpiau cymunedol a gwirfoddol (derbynnir ceisiadau gan yr holl grwpiau hynny sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'u Tîm Cymdogaethau Diogelach).

## 6. Cyllid Comisiynu Dioddefwyr

6.1 Yn dilyn y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref wedi rhoi cyllid i gomisiynwyr i gomisiynu gwasanaethau dioddefwyr lleol.

6.2 Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cadw cyfrifoldeb am Gomisiynu rhai gwasanaethau dioddefwyr effaith mawr ac arbenigol, sy'n cynnwys:

6.3 Canolfannau Cymorth Trais Rhywiol (dim Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol)
6.4 Gwasanaethau Dynladdiadau
6.5 Gwasanaeth tystion llys
6.6 Dioddefwyr Masnachu Pobl
6.7 Llinell Gymorth Dioddefwyr Genedlaethol

Er mwyn paratoi ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr rwyf wedi comisiynu adolygiad o'r asesiad anghenion annibynnol i nodi'r gofynion y gall dioddefwyr yng

Nghymru eu cael ar gyfer gwasanaethau cymorth. Bydd yr adolygiad hwn o'r asesiad anghenion yn dechrau yn 2021 a chaiff ei ddefnyddio i ddatblygu bwriadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau dioddefwyr yng ngogledd Cymru ymhellach. Fy mwriad yw comisiynu gwasanaethau cymorth eang priodol i ddioddefwyr yn ogystal â chymorth mwy dwys i ddioddefwyr sydd wedi dioddef effeithiau emosiynol, corfforol neu eraill mwy.

6.8 Ar gyfer 2021/22 mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dyrannu £816,354.00 i'r SCHTh i gyflwyno gwasanaethau dioddefwyr ledled Gogledd Cymru. Fodd bynnag, defnyddir £759,754.00 ar gyfer gwasanaethau dioddefwyr creiddiol a £56,600.00 a chlustnodir £56,600.00 i gynorthwyo gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol. Yn ystod 20/21 gwnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder roi swm o £617,015.00 i gynorthwyo darpariaethau IDVA ac ISVA ledled y rhanbarth.

6.9 Ymgymerir â gwaith pellach o ran cyd-gomisiynu gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth EM a Byrddau Iechyd i sicrhau ein bod yn hyrwyddo cyfleoedd newydd i'n gwasanaethau o ystyried yr hinsawdd bresennol o gyfyngiadau ariannol difrifol.

## 7. GRANT VAWDASV

7.1 Penododd y Bwrdd VAWDASV SCHTh fel y corff atebol (Bancer Rhanbarthol) ar gyfer y Grant VAWDASV o Lywodraeth Cymru. Y cyllid ar y cyd gan SCHTh a'r grant VAWDASV (a dalwyd yn flaenorol yn uniongyrchol i'r Cytundebau Lefel) i'w uno i un potyn i amddiffyn y rhaglenni IDVA, ISVA, CSA a throseddwyr presennol yn y chwe awdurdod lleol i gyd.

7.2 Mae'r Bwrdd Strategol a'r bancer rhanbarthol (SCHTh) wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau fod y cynllun comisiynu ar gyfer 2021/22 yn ymuno â'r cyllid presennol gan SCHTh a'r grant VAWDASV i un potyn ac yn amddiffyn y ddarpariaeth IDVA ac ISVA bresennol. Mae hefyd yn sicrhau fod rhaglenni i droseddwyr a gaiff eu cynnig yn y chwe awdurdod lleol i gyd.

7.3 Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar Fframwaith Canlyniadau lle gall y gwasanaethau a gomisiynwyd ddewis y mwyaf priodol i adrodd arnynt. Bydd y fframwaith hwn yn berthnasol i ddechrau i'r IDVA, ISVA a'r gwasanaethau troseddwyr, ond yn dilyn cynnwys cyllidwyr eraill yn ystod 2021/22, cytunir ar fframwaith ehangach i sicrhau cydlyniad a chysondeb adrodd gwell.

## 8. Neges

8.1 Gwnaf gyhoeddi'r ddogfen hon ar y cyd â manylion y prosiectau a rhaglenni gwaith sy'n derbyn cymorth ariannol drwy gyflwyno'r fframwaith comisiynu hwn ar fy ngwefan http://www.northwales-pcc.gov.uk.